Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Ymgynghoriad ar oruchwylio a rheoleiddio erlynwyr preifat yn y system cyfiawnder troseddol

Mawrth 2025

CP 1259

Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

# Ymgynghoriad ar oruchwylio a rheoleiddio erlynwyr preifat yn y system cyfiawnder troseddol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn ei Fawrhydi

Mawrth 2025

CP 1259

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn PrivateProsecutionConsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5453-1

E03297752 03/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n rhan o'r dirwedd erlyn yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr ac yn gwahodd ymatebion ganddynt. Yn fwy penodol, mae wedi’i anelu at erlynwyr preifat, yn ogystal ag unigolion sydd wedi defnyddio, neu wedi bod yn destun erlyniad(au) preifat. Rydym hefyd yn ymgynghori ar fesurau diogelu ar gyfer erlyniadau a ddygir drwy’r Weithdrefn Un Ynad (SJP) ac mae hwn wedi’i anelu at bob erlynydd, gan gynnwys yr heddlu, sydd wedi defnyddio SJP ac unigolion sydd wedi bod yn destun yr achosion hyn. |
| **Hyd:** | O 06/03/25 i 08/05/25 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** | Criminal Justice and Courts Directorate<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>Ebost: PrivateProsecutionConsultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 8 Mai 2025 ar-lein i https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/private-prosecutors-consultation<br><br>NEU<br><br>Ebost: PrivateProsecutionConsultation@justice.gov.uk<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Courts Justice and Courts Directorate<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ |
| **Ffyrdd ychwanegol o gyfrannu eich barn:** | Mae cyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid hefyd yn cael eu cynnal. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt “Ymholiadau” uchod. |

**Papur ymateb:** Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/private-prosecutors-consultation

**Iaith Gymraeg:** Mae papur ymgynghori Cymraeg ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/oversight-and-regulation-of-private-prosecutors-in-the-criminal-justice-system.

**Ymgysylltiad:** Mae copïau o'r papur ymgynghori hwn yn cael eu hanfon i:

- Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder
- Grŵp Erlynwyr Whitehall
- Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gamweinyddu Cyfiawnder
- Cymdeithas yr Erlynwyr Preifat
- Cymdeithas yr Ynadon
- Yr Uwch Farnwr Llywyddol
- Y Prif Ynad
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cyngor y Bar
- Rhwydwaith Diwygio'r Gyfraith Droseddol Nawr
- Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn neu sydd â barn arno, gan gynnwys busnesau â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd.

**Asesiad Effaith:** Nid oes asesiad effaith wedi'i greu ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn gan mai diben yr ymgynghoriad hwn yw cynorthwyo'r Llywodraeth i benderfynu pa opsiynau polisi i'w symud ymlaen i ddiwygio'r system erlyn preifat. Bydd unrhyw asesiad o effaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn ac yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio ar gyfer craffu os yw'r trothwyon angenrheidiol yn cael eu cyrraedd.

**Asesiad Cydraddoldeb:** Mae asesiad cydraddoldeb wedi'i gynnal ac mae Datganiad Cydraddoldeb yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Crynodeb Gweithredol** 5

**Rhagymadrodd** 7

**Pennod 1 – Cysondeb Safonau ac Atebolrwydd** 12

Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio 12

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni 16

**Pennod 2 – Gwella Trefniadau Diogelu i Gyfiawnder yn y Weithdrefn Un Ynad** 19

Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio 19

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni 20

**Pennod 3 – Gwella Tryloywder** 22

Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio 22

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni 23

**Dadansoddiad Cydraddoldeb** 24

**Asesiad Effaith a'r Iaith Gymraeg** 25

Asesiad Effaith 25

Yr Iaith Gymraeg 25

**Holiadur** 26

**Amdanoch chi** 34

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** 35

Cwynion neu sylwadau 35

Copïau ychwanegol 35

Cyhoeddi ymateb 35

Grwpiau cynrychioliadol 35

Cyfrinachedd 36

**Egwyddorion ymgynghori** 37

# Rhagair

Mae erlyniadau preifat a ddygir gan unigolion neu gwmnïau yn chwarae rhan bwysig yn y system gyfiawnder. Mae nifer o erlynwyr preifat yn dwyn erlyniadau sydd er budd y cyhoedd, gan roi ystyriaeth briodol i brosesau a rheolaeth y gyfraith.  Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae erlynwyr preifat wedi bod yn destun craffu cynyddol a chyfiawn. Canfuwyd bod rhai erlynwyr preifat wedi gweithredu'n anghyfreithlon, yn amhriodol ac ymhell islaw'r safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl. Bu achosion lle mae hyn wedi arwain at anghyfiawnder difrifol.

Efallai mai'r enghraifft fwyaf dybryd yw sgandal Swyddfa'r Post. Mae'r erlyniadau preifat hyn - yn gymwys - wedi'u disgrifio fel un o'r camweddau cyfiawnder gwaethaf yn hanes cyfreithiol ein gwlad. Bu i dystiolaeth a gyflwynwyd i Ymchwiliad TG Horizon Swyddfa'r Post amlygu methiannau yn yr arferion erlyn a arweiniodd at euogfarnu cannoedd o bostfeistri dieuog ar gam. Un o'r pryderon mwyaf er pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw sut y gallai ymddygiad annerbyniol Swyddfa'r Post fel erlynydd preifat fod wedi mynd heb ei ganfod cyhyd - a ph'un a allai gwell goruchwyliaeth a rheoliadau fod wedi'i atal.

Mae yna enghreifftiau nodedig eraill o fethiannau erlynwyr preifat - megis y miloedd o erlyniadau am osgoi talu am docyn rheilffordd a gafodd eu diddymu yn dilyn dyfarniad yn 2024 bod yr erlyniadau wedi'u dwyn yn anghyfreithlon.

Ar hyn o bryd nid yw'r camau y mae'n rhaid i erlynwyr preifat eu cymryd cyn cychwyn erlyniad yn cael eu goruchwylio neu eu craffu mewn modd cydlynol. Hefyd nid oes yna brosesau sicrhau ansawdd mewn lle i sicrhau bod erlynwyr preifat yn cymryd cyfrif priodol o p'un a yw erlyniad er lles y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth yn glir bod rhaid i ni fynd i'r afael â'r materion hyn ar frys os ydym am atal methiannau eraill rhag digwydd yn y dyfodol.

Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn 2020 ar erlyniadau preifat nifer o argymhellion ynghylch sut i fynd i'r afael â phryderon ynghylch erlyniadau preifat. Dan y Llywodraeth Lafur newydd hon, rydym wedi adolygu'r argymhellion hynny a byddwn yn ymgynghori arnynt heb oedi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ymatebwyr ar amrywiaeth o faterion ynghylch erlyniadau preifat. Yn gyntaf, mae'n gofyn sut y gallwn osod safonau cyson a sicrhau atebolrwydd i wella ymddygiad ac arferion erlynwyr. Gallai hyn gynnwys cyflwyno cod ymarfer, sefydlu proses archwilio, a rhoi system achredu mewn lle ar gyfer erlynwyr preifat.

Yn ail, rydym eisiau deall sut gellir gwella'r Weithdrefn Un Ynad (SJP) er mwyn sicrhau bod achosion a ddygir er budd y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys bod angen i bob erlynydd SJP gymryd camau rhesymol i ganfod gwybodaeth am sefyllfa diffynnydd, gan gynnwys unrhyw fregusrwydd, cyn ymlid erlyniad a allai arwain at gael cofnod troseddol. Er bod proses SJP yn hanfodol i sicrhau bod achosion yn cael eu gwrando'n brydlon yn y llys ynadon, ni ddylai prosesau amserol ddigwydd ar draul tegwch.

Yn olaf, rydym yn ceisio mewnbwn ar sut y gallwn wella tryloywder erlyniadau preifat i gynyddu hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Gallai cynyddu tryloywder gynnwys mynnu bod sefydliadau ac asiantaethau sy'n dwyn erlyniadau preifat yn cyhoeddi data.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n dysgu gwersi o fethiannau diweddar mewn erlyniadau preifat a sicrhau nad yw'r broses yn agored i gael ei chamddefnyddio a allai arwain at roi cofnod troseddol i bobl ddieuog neu hyd yn oed yn waeth, eu hanfon i garchar. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan bwysig o'r dysgu hwnnw. Bydd yr ymatebion yn ein helpu i ddatblygu newidiadau i amddiffyn rôl allweddol erlyniadau preifat ar yr un pryd ag adfer hyder yn ein system cyfiawnder.

**Sarah Sackman CB AS**

**Gweinidog Gwladol dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol**

# Crynodeb Gweithredol

Mae’r papur ymgynghori hwn yn amlinellu cynigion ar gyfer rheoleiddio a goruchwylio erlynwyr preifat yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhai sy’n defnyddio’r Weithdrefn Un Ynad (SJP). Nod y cynigion hyn yw sicrhau bod erlynwyr preifat yn cadw at safonau cyson ac y gellir eu dal yn atebol am eu harferion.

Amlygwyd yr angen am ddiwygio gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn ei adroddiad *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu* yn 2020. Mae diddordeb y cyhoedd mewn erlyniadau preifat wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn sgandal Horizon Swyddfa’r Post a chamddefnydd o SJP gan rai cwmnïau gweithredu trenau.

Nod y Llywodraeth yw cyflawni tri amcan allweddol drwy'r ymgynghoriad hwn:
1. Sefydlu safonau cyson ar gyfer erlynwyr preifat a'u dal yn atebol am eu harferion.
2. Sicrhau mesurau diogelu digonol i gyfiawnder yn y SJP.
3. Cynyddu hyder yn y system cyfiawnder troseddol drwy wella tryloywder erlyniadau preifat.

Mae’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar adroddiad 2020 y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC), tystiolaeth o sgandal TG Horizon Swyddfa’r Post, ac adroddiadau gan sefydliadau sydd â diddordeb yn y dirwedd erlyn preifat a’r Weithdrefn Un Ynad.

Drwy'r ymgynghoriad mae'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno cod ymddygiad gorfodol ar gyfer erlynwyr preifat er mwyn sefydlu safonau ymarfer cyson ar draws erlynwyr preifat. Byddai'r cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i erlynwyr preifat gynnal erlyniadau mewn ffordd gymesur ac am reswm clir a dilys.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar atebolrwydd drwy system o arolygu gorfodol ar gyfer erlynwyr preifat i sicrhau eu bod yn cadw at y safonau gofynnol. Yn ogystal, gallai system achredu ddarparu safon ansawdd a gydnabyddir yn ffurfiol ar gyfer erlynwyr preifat, gan sicrhau y cedwir at y cod statudol newydd neu’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y canlyniadau priodol i erlynwyr preifat sy'n methu â bodloni'r safonau gofynnol. Gallai hyn gynnwys cyfyngiadau ar eu hawliau i ddwyn erlyniadau neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gael caniatâd gan y Twrnai Cyffredinol neu’r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn cychwyn erlyniad.

Mae'r Llywodraeth yn ystyried newidiadau i wella'r mesurau diogelu o fewn proses SJP ac mae'n ceisio barn ar y rhain drwy'r ymgynghoriad hwn. Mae’r rhain yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob erlynydd SJP ymgysylltu â diffynyddion cyn cychwyn erlyniad, a/neu

adolygu’r holl amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd gan ddiffynyddion cyn i’r ynad adolygu’r achos i sicrhau ei fod er budd y cyhoedd i erlid achosion.

Mae’r ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar y ffordd orau i’r Llywodraeth wella tryloywder erlynwyr preifat. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig sefydlu cofrestr gyhoeddus o'r holl erlynwyr preifat yng Nghymru a Lloegr. Byddai'r gofrestr hon yn nodi pwy sy'n dwyn erlyniadau preifat a nifer yr erlyniadau a ddaw yn eu sgil. Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i erlynwyr preifat gyhoeddi data ar yr erlyniadau a ddaw yn eu sgil, gan gynnwys nifer yr erlyniadau, mathau o droseddau, a nifer yr euogfarnau sy’n digwydd o ganlyniad i hyn.

Rydym yn cydnabod bod y dirwedd erlyn preifat yn gymhleth a bod rhai ystyriaethau sy’n unigryw i erlynwyr preifat, neu i rai erlynwyr preifat. Drwy'r ymgynghoriad hwn, ein nod yw deall yn llawn sut mae cynigion yn effeithio ar bob math o erlynydd preifat a'r ffordd orau o sicrhau safonau cyson, atebolrwydd a thryloywder i bob erlynydd preifat yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Llywodraeth o’r farn bod rheoleiddio erlynwyr preifat yn hanfodol i atal camweinyddu cyfiawnder a gwella hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am naw wythnos ac yn cau ar 8 Mai 2025. Edrychwn ymlaen at glywed barn y rhai sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn.

# Rhagymadrodd

Mae’r papur hwn yn nodi cynigion ar gyfer ymgynghori ynghylch rheoleiddio a goruchwylio erlynwyr preifat sy’n dwyn erlyniadau mewn llysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac erlynwyr sy’n dwyn erlyniadau drwy’r Weithdrefn Un Ynad (SJP). Ymdrinnir yn fanylach â chwmpas y diwygiadau arfaethedig hyn yn y penodau isod.

**Pam ymgynghori nawr?**
Yn dilyn sgandal Swyddfa'r Post, bu pryderon eang ymhlith y cyhoedd ynghylch rheoleiddio a goruchwylio erlyniadau a ddygir gan erlynwyr preifat. Yn wahanol i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y mae’n rhaid iddo gadw at safonau erlyn a nodir yn y Cod statudol ar gyfer Erlynwyr y Goron ac a arolygir gan Arolygiaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi (HMCPSI), naill ai nid yw’r safonau y mae’n ofynnol i erlynwyr preifat eu bodloni wedi’u cytuno’n ffurfiol, neu nid ydynt wedi’u nodi’n glir mewn un man. Mae llawer o'r canllawiau ar gyfer erlynwyr yn berthnasol i erlynwyr preifat ond maent yn gynghorol yn hytrach nag yn rhwymol.

Yn 2020, cynhaliodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) ymchwiliad i archwilio effeithiolrwydd y mesurau diogelu mewn lle i reoleiddio erlyniadau preifat ac yn ei adroddiad daeth i’r casgliad y “dylai’r Llywodraeth gryfhau’r mesurau diogelu sy’n rheoleiddio erlyniadau preifat i sicrhau bod unrhyw sefydliad sy’n cynnal nifer sylweddol o erlyniadau yn ddarostyngedig i’r un safonau rheoleiddio a disgwyliadau o ran atebolrwydd a thryloywder ag erlynwyr cyhoeddus”.[1] Mae’r Llywodraeth hon yn ailystyried yr argymhellion hyn, ac y mae rhai ohonynt yn destun yr ymgynghoriad hwn.

Mae Ymchwiliad Horizon Swyddfa’r Post wedi taflu goleuni ar y methiannau mewn arferion erlyn Swyddfa’r Post lle bu Swyddfa’r Post fel erlynydd preifat yn ymchwilio ac yn erlyn postfeistri gan ddefnyddio tystiolaeth ddiffygiol o system gyfrifiadurol TG Horizon, gan arwain at euogfarnau troseddol o bobl ddiniwed. Ar ôl i’r llysoedd apêl wrthdroi euogfarnau dros 100 o gyn-bostfeistri, fe wnaeth Deddf Troseddau Swyddfa’r Post (System Horizon) 2024 ddileu euogfarnau unigolion a gafwyd yn euog ar gam fel rhan o Sgandal Horizon. Fodd bynnag, bu pryder cynyddol ynghylch sut na chafodd ymddygiad Swyddfa’r Post fel erlynydd ei ddarganfod cyhyd, a’r potensial i sefydliadau tebyg ddwyn erlyniadau preifat heb gael eu hachredu, eu rheoleiddio na chraffu arnynt yn briodol.

Daeth pryder pellach i sylw’r cyhoedd pan ddarganfuwyd, yn 2024, fod rhai cwmnïau gweithredu trenau wedi defnyddio SJP i erlyn trosedd benodol na chaniateir i gwmnïau

[1] *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu*, Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ’r Cyffredin, 2 Hydref 2020 (Erlyniadau preifat: mesurau diogelu - Y Pwyllgor Cyfiawnder - Tŷ’r Cyffredin), para. 60

trenau ei herlyn drwy SJP, ac o ganlyniad mae tua 60,000 o achosion wedi'u datgan yn ddi-rym. O ganlyniad i'r defnydd anghywir hwn o SJP, a phryderon cysylltiedig eraill, gofynnodd y cyn Ysgrifennydd Trafnidiaeth i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) gynnal adolygiad annibynnol o arferion gorfodi diogelu refeniw gweithredwyr trenau, gan gynnwys y defnydd o erlyniadau. Bydd yr ORR yn adrodd ar ei ganfyddiadau ym mis Mai 2025.[2] Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth i ystyried adroddiad yr ORR lle mae'n ymwneud â gweithredwyr trenau yn dwyn erlyniadau troseddol, y mae llawer ohonynt yn cael eu cychwyn gan ddefnyddio SJP.

Er gwaethaf y meysydd hyn sy'n peri pryder, mae llawer o sefydliadau ac asiantaethau yr ymddengys eu bod yn dwyn erlyniadau'n briodol ac yn gyfrifol ac yn gweithredu arferion erlyn da. Mae'r hawl o fewn ein system cyfiawnder troseddol i ddwyn erlyniad lle nad yw asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gwneud hynny yn ddull diogelu allweddol i gael mynediad at gyfiawnder, ac mae'n bwysig nodi bod llawer o sefydliadau sy'n erlyn yn gweithredu er budd y cyhoedd, gan roi'r sylw mwyaf i system gyfreithiol gyfiawn a theg.

Fodd bynnag, o ystyried y pryderon a'r heriau a amlinellir uchod, a'r effaith sylweddol ar unigolion o ganlyniad i erlyniad troseddol, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen ymgynghori ar gynigion a fyddai'n rheoleiddio erlynwyr preifat ac yn darparu trosolwg ohonynt, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod safonau priodol yn cael eu bodloni ym mhob achos troseddol.

### Nodau'r ymgynghoriad

Nod y Llywodraeth yw diwygio'r dirwedd erlyn preifat mewn tair ffordd allweddol:

1. Gosod safonau cyson ar gyfer erlynwyr preifat a gwneud erlynwyr yn atebol am eu harferion a'r erlyniadau a ddaw yn eu sgil;
2. Sicrhau bod digon o fesurau diogelu cyfiawnder yn y weithdrefn un ynad;
3. Cynyddu hyder yn y system cyfiawnder troseddol drwy wella tryloywder erlyniadau preifat, er mwyn caniatáu i unrhyw feysydd sy'n peri pryder gael eu nodi a rhoi sylw iddynt yn gyflym.

### Tirwedd Erlynol

Gan y gall unrhyw unigolyn neu sefydliad ddwyn erlyniad preifat, mae'r dirwedd erlyn preifat yn eang.

Mae nifer yr erlyniadau a ddygir, a'r troseddau a erlynir, gan asiantaethau ar wahân yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai sefydliadau yn dwyn miloedd o erlyniadau am droseddau

[2] Galwad am dystiolaeth: Adolygiad o bolisïau diogelu refeniw gweithredwyr trenau | Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (https://www.orr.gov.uk/search-consultations/call-evidence-review-train-operators-revenue-protection-policies)

lefel isel yn flynyddol tra bod eraill yn cychwyn erlyniadau mewn niferoedd llawer llai ond ar gyfer troseddau llawer mwy difrifol.

At hynny, nid oes unrhyw derminoleg y cytunwyd arni ar gyfer y gwahanol fathau o erlynwyr a all ddod ag achosion i'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr.

**Diffiniadau**
At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

> **Asiantaethau cyfiawnder troseddol**: sefydliadau sydd â'r prif ddiben o ymchwilio neu erlyn troseddau, ar ran y Goron. O fewn hyn rydym yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), heddluoedd (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig), y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) a'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA). Mae'r sefydliadau hyn yn destun arolygiad statudol naill ai gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi (HMCPSI) neu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ac maent yn cymhwyso'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth ddwyn erlyniadau.
>
> **Erlynwyr preifat**: pob corff arall sy'n dwyn erlyniadau troseddol heblaw'r rhai a nodir uchod. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n dwyn erlyniadau yn y ffyrdd canlynol:
>
> a) Defnyddio pwerau cyfraith gwlad a gedwir o dan adran 6(1) Deddf Erlyn Troseddau 1985 (y pŵer i ddwyn erlyniadau preifat);
> b) Fel "erlynwyr perthnasol" a awdurdodwyd i ddwyn erlyniadau (naill ai'n gyffredinol neu am droseddau penodol) drwy'r Weithdrefn Un Ynad, mewn Gorchymyn 2016 a wnaed o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003; neu
> c) Fel yr awdurdodwyd ar gyfer troseddau penodol o dan ddeddfwriaeth benodol, megis y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem), sydd â phwerau i erlyn rhai troseddau o dan Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a Rheoliadau Trydan a Nwy (Cywirdeb a Thryloywder y Farchnad) (Cosbau Troseddol) 2015.

Gall yr erlynwyr hyn fod yn sefydliadau preifat neu'n gyrff cyhoeddus – ond er eglurder byddwn yn cyfeirio at y grŵp hwn o erlynwyr fel 'erlynwyr preifat' drwy gydol y ddogfen hon. Mae'r cynigion ym Mhennod un (Cysondeb Safonau ac Atebolrwydd) a Phennod tri (Cynyddu Tryloywder) yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r grŵp hwn o erlynwyr.

Gall erlynwyr penodedig o'r ddau gategori ddefnyddio'r Weithdrefn Un Ynad i ddwyn erlyniadau am rai troseddau. Mae'r cynigion ym Mhennod dau (Gwella Trefniadau Diogelu i Gyfiawnder yn y Weithdrefn Un Ynad) yn berthnasol i bob erlynydd sy'n defnyddio SJP.

**Nid o fewn cwmpas yr ymgynghoriad**
Nid yw Awdurdod Erlyn y Gwasanaeth, sy'n dwyn erlyniadau yn y Gwasanaeth Llysoedd Milwrol, o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Er bod y rhan fwyaf o erlyniadau gan erlynwyr preifat yn cael eu dwyn gan gwmnïau neu sefydliadau, gall unigolion hefyd ddwyn erlyniadau. Er enghraifft, gall dioddefwr trosedd ddwyn erlyniad yn erbyn y cyflawnwr os yw’r heddlu neu’r CPS yn penderfynu peidio â’i gyhuddo.

Rydym yn ystyried bod hawl dioddefwyr trosedd i gychwyn achos troseddol yn darparu llwybr hanfodol i gyfiawnder, ac nid ydym yn ceisio cyfyngu ar allu unigolyn i ddwyn erlyniad ar ei ran ei hun mewn unrhyw ffordd. Felly mae unigolion sy'n dwyn erlyniad ar eu rhan eu hunain y tu allan i gwmpas y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

Yn olaf, mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar fesurau i ddiwygio'r dirwedd erlyniadol breifat. Er ein bod yn cydnabod y gorgyffwrdd sylweddol rhwng ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol a’r ffaith bod rhai sefydliadau yn cyflawni’r ddwy swyddogaeth, nid yw safonau ar gyfer y rhai sy’n ymchwilio i droseddau yn destun yr ymgynghoriad hwn.

**Cefndir erlyniadau preifat**
Mae’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn caniatáu i unrhyw unigolyn neu sefydliad gychwyn achos troseddol trwy erlyniad trwy wneud cais i’r llys ynadon yn gyntaf am wŷs i gychwyn yr erlyniad.

Yn ogystal, gall rhai erlynwyr preifat ddwyn erlyniadau am rai mân droseddau penodol gan ddefnyddio’r SJP yn hytrach na gorfod gwneud cais i’r llys ynadon am wŷs. Gall y CPS a’r heddlu hefyd ddefnyddio’r SJP i gychwyn erlyniad am yr un troseddau penodedig.

Mae llawer o sefydliadau sy’n dwyn erlyniadau yn asiantaethau cyhoeddus (fel yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)), ac mae gan rai awdurdod deddfwriaethol penodol i ddwyn erlyniadau am rai mathau o droseddau, sy’n golygu nad oes rhaid iddynt yn gyntaf wneud cais i’r llys ynadon am wŷs, er enghraifft, Awdurdodau Lleol y mae eu pŵer i erlyn yn dod o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae llawer o gwmnïau'n dwyn erlyniadau troseddol, er enghraifft mae rhai cwmnïau trenau'n erlyn pobl am droseddau osgoi talu am docynnau ac mae rhai cwmnïau cyfryngau yn erlyn pobl am droseddau fel torri hawlfraint. Mae rhai elusennau yn erlyn am droseddau fel dwyn eu harian a gyfrannwyd neu am droseddau sy'n benodol i'w hachos, megis erlyn yr RSPCA am droseddau lles anifeiliaid. Mae yna hefyd rai cwmnïau, fel TM Eye Ltd, sy’n dwyn erlyniadau nod masnach yn bennaf ar ran unigolion neu sefydliadau am ffi.

**Data**
Ychydig iawn o ddata cyhoeddedig sydd ar gael ar erlyniadau preifat.

Mae'r data canlynol yn gyfrif o ddiffynyddion a waredwyd yn y llys ynadon yn 2023 yn ôl math o erlynydd. Mae'n is-set o'r gyfres Ystadegau Swyddogol Achrededig cyhoeddedig *Criminal Court Statistics Quarterly* (CCSQ).[3] Gwybodaeth reoli heb ei chyhoeddi yw'r data ac nid yw wedi'i sicrhau o ran ansawdd i'r un safonau â'r datganiad CCSQ ehangach ond fe'i darperir yma fel datganiad cyntaf o'r data hwn gan ei fod yn bwysig i gefndir yr ymgynghoriad.

| Math o erlynydd | 2023 (cyfrif y diffynyddion yr ymdriniwyd â hwy yn y llys ynadon[4]) | % o gyfanswm y diffynyddion yr ymdriniwyd â hwy yn y llys ynadon[5] |
|---|---|---|
| Yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 832,865 | 66% |
| Erlynwyr Preifat | 325,256 | 26% |
| Arall a Heb ei Asesu | 107,873 | 9% |

Fel yr amlinellwyd uchod, yn 2023, cafodd 26% o gyfanswm y diffynyddion yr ymdriniwyd â hwy yn y llys ynadon eu herlyn gan erlynwyr preifat. Mae hyn yn cynnwys achosion a gwblhawyd drwy'r SJP, achosion a wrandawyd yn y llys ac achosion a draddodwyd yn ddiweddarach i Lys y Goron. O'r diffynyddion nad oeddent yn SJP y gwaredwyd eu herlyniadau preifat yn y llys ynadon, traddodwyd 3% wedyn i Lys y Goron. Fodd bynnag, ni wyddys a arhosodd yr achosion hyn gydag erlynydd preifat neu a gymerwyd drosodd gan y CPS, ac nid oes data pellach ar erlyniadau preifat yn Llys y Goron ar gael.

3 https://www.gov.uk/government/collections/criminal-court-statistics

4 Mae data o fis Medi 2020 yn cynnwys achosion a gofnodwyd ar LIBRA a'r Platfform Cyffredin.

5 Sylwer: Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu

# Pennod 1 – Cysondeb Safonau ac Atebolrwydd

## Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio

Rhaid i bob erlynydd gydymffurfio â Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2020[6] ac mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu fel erlynwyr yn rhwym wrth y codau ymddygiad a osodwyd gan eu cyrff rheoleiddio proffesiynol, megis yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, bob amser. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae diffyg safonau cyffredin y mae angen i erlynwyr preifat gadw atynt wrth benderfynu a ddylid dwyn erlyniad, ac wrth gynnal yr erlyniad hwnnw. Yn wahanol i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, sef canllawiau statudol y mae'n rhaid i'r CPS eu dilyn ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill gadw ato, nid oes cod rhwymol y mae angen i erlynwyr preifat ei ddilyn wrth ddwyn erlyniad. Yn yr un modd, nid oes unrhyw graffu gofynnol (fel arolygu) ar sut mae'r erlynwyr hyn yn cynnal eu herlyniadau, ac nid oes llwybr clir ar gyfer atebolrwydd os na chaiff safonau derbyniol eu bodloni.

Mae'r diffyg cysondeb ac atebolrwydd hwn yn y safonau sy'n ofynnol gan erlynwyr yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder ac, fel y dangoswyd gan sgandal Horizon, mae perygl y bydd y system cyfiawnder troseddol yn cael ei defnyddio i fynd ar drywydd euogfarnau annheg ac anghyfiawn. Rydym yn glir bod angen i hyn newid.

**Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai enghreifftiau o arfer da ymhlith erlynwyr preifat. Rydym yn ymwybodol bod rhai erlynwyr preifat yn dewis dilyn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron[7] wrth ddwyn eu herlyniadau. Yn ogystal, dyfeisiodd Cymdeithas yr Erlynwyr Preifat (PPA), sefydliad aelodaeth a ffurfiwyd yn 2017 ar gyfer erlynwyr preifat ac academyddion yn y maes hwn, God gwirfoddol ar gyfer Erlynwyr Preifat[8] sy'n amlinellu y dylai erlynwyr preifat geisio, lle bo'n bosibl, cydymffurfio â'r un codau ymarfer a chanllawiau ag sy'n berthnasol i asiantaethau cyfiawnder troseddol (e.e. y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron). Mae'r PPA hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar faterion y maent yn eu hystyried yn unigryw i erlynwyr preifat. Rydym yn croesawu enghreifftiau pellach o arfer da, a sut mae safonau'n cael eu cynnal, mewn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

6 Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2020 a Chyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023 (https://www.gov.uk/guidance/rules-and-practice-directions-2020)

7 Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors)

8 Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat - Cymdeithas yr Erlynwyr Preifat (https://private-prosecutions.com/code-for-private-prosecutors/)

Fodd bynnag, er bod y Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat yn gyfres wirfoddol fanwl o ganllawiau, nid yw'n orfodol ac nid yw pob erlynydd preifat yn cadw ato.

Er bod y Llywodraeth yn croesawu datblygiad y PPA o'r Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat a'i nodau i ddarparu meincnod ar gyfer arfer gorau, rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r PPA yn cyflawni unrhyw swyddogaeth reoleiddiol na sicrwydd ansawdd ac yn nodi cyfyngiadau'r Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat fel cod anstatudol.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) ar erlyniadau preifat yn 2020 "y dylai'r Llywodraeth ystyried deddfu cod safonau rhwymol, wedi'i orfodi gan reoleiddiwr, sy'n berthnasol i bob erlynydd ac ymchwilydd preifat" i "sicrhau bod unrhyw sefydliad sy'n cynnal nifer sylweddol o erlyniadau yn ddarostyngedig i'r un safonau rheoleiddio a disgwyliadau o atebolrwydd a thryloywder ag erlynwyr cyhoeddus."[9]

**Y profion tystiolaethol a budd y cyhoedd**

Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPS a'r SFO ystyried dwy elfen y 'Prawf Cod Llawn'[10] cyn dwyn erlyniad a pharhau i adolygu'r rhain drwy gydol yr erlyniad.

Elfen gyntaf y Prawf Cod Llawn yw ystyried a oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd i roi gobaith rhesymol o euogfarn. Rhaid gwneud hyn yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth, gan gynnwys ystyriaeth o sefyllfa'r amddiffyniad a'r wybodaeth neu'r dystiolaeth y mae'r sawl sydd dan amheuaeth wedi'i darparu fel esboniad neu y gallai ddibynnu arni ('cam tystiolaethol'). Ail elfen y Prawf Cod Llawn yw ystyried a yw er lles y cyhoedd i erlyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried difrifoldeb y drosedd honedig, beiusrwydd y sawl a ddrwgdybir, amgylchiadau a lefel y niwed a achoswyd neu'r effaith ar y dioddefwr neu'r gymuned, ac a yw erlyniad yn gymesur o dan yr amgylchiadau ('cam budd y cyhoedd').

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i erlynwyr preifat fodloni'r profion hyn. Fodd bynnag, mae Cod y Gymdeithas Erlynwyr Preifat ar gyfer Erlynwyr Preifat yn cynghori ei bod yn "arfer gorau i erlynydd preifat a'r rhai sy'n eu cynghori i gymhwyso'r Prawf Cod Llawn".[11]

9 *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu*, Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, 2 Hydref 2020 (https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/497/49702.htm), para. 60

10 Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors), pennod 4

11 *Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat,* Cymdeithas yr Erlynwyr Preifat, 2022 (https://private-prosecutions.com/code-for-private-prosecutors/), para 5.1.2

Mae gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) y pŵer i gymryd drosodd, a'r pŵer i atal, erlyniad preifat os – ar ôl adolygu – mae'n ystyried nad yw'r erlyniad yn bodloni'r prawf tystiolaethol neu brawf lles y cyhoedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r CPS yn cael ei hysbysu bod erlyniad preifat yn cychwyn, a dim ond os caiff ei gyfeirio ato y caiff ei hysbysu am erlyniad preifat - fel arfer gan ddiffynnydd. Nid oes angen i unrhyw un gyfeirio erlyniad preifat i'r CPS i'w adolygu, sy'n golygu mai ychydig iawn o erlyniadau preifat sy'n cael eu dwyn i sylw'r CPS er mwyn iddynt adolygu'r profion tystiolaethol neu fudd y cyhoedd. Yn 2023-24, cymerodd y CPS drosodd a therfynu 20 o'r 32 achos a gyfeiriwyd ato, ni chymerodd yr awenau a pharhau ag unrhyw un.[12]

**Gwahanu swyddogaethau**

Un o egwyddorion cyffredinol y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yw bod "annibyniaeth yr erlynydd yn ganolog i system cyfiawnder troseddol cymdeithas ddemocrataidd. Mae erlynwyr yn annibynnol ar bersonau neu asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau erlyniad. Mae erlynwyr y CPS hefyd yn annibynnol ar yr heddlu ac ymchwilwyr eraill. Rhaid i erlynwyr fod yn rhydd i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol heb ymyrraeth wleidyddol, ac ni ddylent gael eu heffeithio gan bwysau neu ddylanwad amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell."[13]

Er gall y CPS gynghori'r heddlu ar drywyddau ymholi rhesymol a strategaeth ymchwilio gyffredinol, yr heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio'n drylwyr ac yn briodol i unrhyw droseddau.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, mae cyfreithiwr adolygu achos o fewn y CPS yn dibynnu ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr heddlu ac yn seilio eu penderfyniad a ddylid erlyn ar y profion tystiolaethol a budd y cyhoedd. Yna mae cyfreithiwr ar wahân o fewn y CPS yn arwain ar yr erlyniad.

Mae'r gwahaniad swyddogaethau hwn – ymchwilio, penderfynu a ddylid erlyn, ac erlyn – yn sicrhau bod erlyniadau a ddygir gan y CPS yn cael eu cynnal yn annibynnol ar ymchwilwyr a bod y penderfyniad ynghylch a ddylid erlyn yn cael ei adolygu'n annibynnol ar y rhai a ymchwiliodd i'r drosedd honedig ac ar yr erlyniad ei hun.

Mae llawer o erlynwyr preifat yn dwyn erlyniadau lle maent hefyd yn ddioddefwr neu'n cael eu heffeithio fwyaf gan y drosedd honedig ac yn cynnal yr ymchwiliad i'r drosedd honedig. Rydym yn cydnabod bod rhai erlynwyr preifat yn cynnal eu swyddogaethau ymchwilio ac erlyn ar wahân – mae hyn yn ofyniad gan y PPA yn eu Cod ar gyfer Erlynwyr Preifat –

[12] Cofnodir y wybodaeth hon at ddibenion gwaith achos y CPS ac nid at ddibenion ystadegau swyddogol. Gall y data a ddarperir fod yn destun gwallau posibl wrth fewnbynnu a phrosesu data, ac mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro ac yn agored i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi a'i diweddaru.

[13] Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors), Pennod 2.1

ond lle na chydymffurfir â'r gwahaniad hwn, mae risgiau y bydd yr erlynydd yn dwyn achos heb fodloni'r prawf tystiolaethol a/neu brawf budd y cyhoedd, ac yn lle hynny oherwydd ei fod er budd y sefydliad i wneud hynny.

Gall erlynwyr preifat adennill colledion trwy iawndal a osodir gan y Llys fel rhan o ddedfryd ar euogfarn, a/neu achosion atafaelu a orchmynnir gan y Llys. Gall llawer o erlynwyr preifat adennill costau'r erlyniad o gronfeydd canolog. Mae'n bosibl felly y bydd cymhelliad ychwanegol i erlynwyr preifat gychwyn erlyniad, sy'n peri risg na chaiff prawf budd y cyhoedd ei ddilyn bob amser.

Rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol i lawer o erlynwyr preifat allanoli'r ymchwiliad neu swyddogaethau erlyn. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl sicrhau bod swyddogaethau digon annibynnol. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), fel erlynydd asiantaeth cyfiawnder troseddol, yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain ac yn arwain erlyn achosion o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd difrifol neu gymhleth. Mae gan yr SFO dimau achos amlddisgyblaethol sy'n cynnwys cyfreithwyr, ymchwilwyr, cyfrifwyr fforensig ac arbenigwyr eraill. Mae'r timau hyn yn ymchwilio ac yn erlyn achosion mewn dull ar y cyd a elwir yn fodel 'Roskill'.[14]

**Craffu ar ymlyniad at y safonau gofynnol**

Ar hyn o bryd nid oes arolygiad gorfodol o erlynwyr preifat. Mae arolygiaeth, sef Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi (HMCPSI), yn goruchwylio'r modd y mae'r CPS a'r SFO yn cadw at y safonau statudol yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Mae HMCPSI yn ymroddedig i ysgogi gwelliannau a hyder y cyhoedd yn y broses erlyn. Cynhelir arolygiadau yn ffurfiol ond gyda dull cydweithredol, mae arolygwyr HMCPSI yn cymryd amser i ddeall gweithrediadau'r erlynydd, gan weithio fel secondai am gyfnod yr arolygiad. Cyhoeddir adroddiadau arolygu HMCPSI felly os bydd arolygiad yn canfod methiannau, gall y Llywodraeth adolygu pa gamau i'w cymryd. Mae'r Llywodraeth yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Senedd am fethiannau'r erlynydd a'r camau a gymerwyd o ganlyniad iddynt.

Fodd bynnag, nid yw erlynwyr preifat yn destun yr un craffu gorfodol ac nid oes unrhyw gorff a all orfodi erlynydd preifat i gynnal arolygiad. Gall HMCPSI arolygu sefydliadau y tu allan i'r CPS/SFO, fodd bynnag, mae'r arolygiadau hyn trwy wahoddiad gan y sefydliad ei hun. Nid oes gan HMCPSI y pŵer i gychwyn arolygiad heb ganiatâd a chydweithrediad y sefydliad. Yn yr un modd, nid oes cod rhwymol y gallant fesur arferion y sefydliad yn ei erbyn. Ar hyn o bryd mae gan HMCPSI y gallu i gynnal un arolygiad o sefydliad allanol bob blwyddyn – er nad oes unrhyw ôl-effeithiau clir os bydd arolygiad yn canfod methiannau gan yr erlynydd preifat.

[14] ECR0038 - Tystiolaeth ar Drosedd Economaidd (https://committees.parliament.uk/writtenevidence/89882/pdf/), paras 3-7

I grynhoi, heb god clir a gorfodol, a heb gorff arolygu sydd â'r pŵer i benderfynu pwy i'w arolygu a phryd, neu system achredu, mae amrywiaeth sylweddol mewn safonau rhwng erlynwyr preifat – rhai ohonynt yn danysgrifwyr gwirfoddol i'r Cod Erlynwyr Preifat neu'n dewis cadw at y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron – yn ogystal â rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol ac erlynwyr preifat. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fesurau diogelu ar gael os bydd erlynydd preifat yn arfer yn wael mewn achosion unigol y tu hwnt i atgyfeiriad i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, sy'n ymddangos fel pe bai'n cael ei ddefnyddio'n anaml o ystyried y nifer fach o atgyfeiriadau o gymharu â nifer yr erlyniadau cyfan.

## Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Mae'r Llywodraeth yn credu bod angen clir am ddiwygio er mwyn gwella cysondeb safonau ac atebolrwydd erlynwyr preifat. Rydym yn cynnig bod hyn yn cael ei gyflawni drwy bedwar mecanwaith allweddol: cod safonau rhwymol ar gyfer erlynwyr preifat, system arolygu ar gyfer rhai erlynwyr preifat, system achredu, a chanlyniadau a sancsiynau clir i'r rhai sy'n methu â chynnal y safonau gofynnol.

**Cod rhwymol**

Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod bod yr holl erlyniadau troseddol a ddygir gerbron y llysoedd wedi'u hasesu fel rhai sy'n bodloni'r prawf tystiolaethol a'u bod er budd ehangach y cyhoedd, a bod y safonau y mae'n rhaid i'r erlyniadau hynny eu bodloni yn gyson waeth pwy sy'n eu cychwyn.

Rydym wedi adolygu argymhellion y JSC o 2020, yn enwedig yng ngoleuni gwybodaeth bellach yn ymwneud â sgandal Horizon Swyddfa'r Post, ac awgrymiadau bod rhai erlynwyr preifat wedi mynd ar drywydd erlyniadau heb ystyried yn llawn a yw gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gyflwyno cod ymddygiad gorfodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i erlyniadau gael eu cynnal mewn ffordd gymesur ac am reswm clir a dilys. Byddai cod ymddygiad yn gweithredu fel mesur i sicrhau bod erlynwyr preifat yn rhwym i lefel ofynnol o safonau wrth ddwyn eu herlyniadau. Rydym yn ymgynghori ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn benodol yn y Cod hwn, ac i ba erlynwyr preifat y dylai fod yn berthnasol (er enghraifft, a ddylai fod yn berthnasol i erlynwyr o faint penodol yn unig, ac a ddylai fod yr un mor berthnasol i gyrff cyhoeddus a sefydliadau preifat).

Er gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gofynion a osodir ar erlynwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn berthnasol i erlynwyr preifat, mae rhai ystyriaethau sy'n unigryw i sefydliadau sy'n dwyn erlyniadau preifat. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o erlynwyr preifat eu swyddogaethau ymchwilio ac erlyn yn fewnol. Rydym yn cydnabod bod heriau ychwanegol felly o ran cynnal gwahaniad rhwng y swyddogaethau hyn o fewn sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat.

Nodwedd arall o sefydliadau sy’n dwyn erlyniadau preifat sy’n eu gwahaniaethu oddi wrth erlynwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol yw nad ymchwilio ac erlyn troseddau honedig yw eu prif swyddogaeth i’r rhan fwyaf o sefydliadau. Mae llawer o’r sefydliadau hyn yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynhyrchu a/neu’n gwerthu cynnyrch neu wasanaethau, yn ymgyrchu dros achosion elusennol, neu’n gweithredu ar ran adrannau’r Llywodraeth – yn wahanol i’r CPS a’r SFO, nid ymchwilio ac erlyn troseddau yw eu hunig neu brif ddiben.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn i ymatebwyr am sylwadau a mewnwelediad i ystyriaethau sy’n unigryw i erlynwyr preifat, ac a oes unrhyw reoliadau neu ofynion pellach y dylid eu gosod ar erlynwyr preifat nad ydynt yn berthnasol i erlynwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, gallai fod yn ofyniad i fwrdd corfforaethol neu lywodraethu sefydliad dderbyn adroddiadau am erlyniadau preifat a ddygwyd gan y sefydliad fel erlynydd preifat, o ystyried nad dyma yw eu prif swyddogaeth ac efallai na fydd yn cael ei adrodd yn fewnol fel arall.

Er byddai cod ymarfer rhwymol yn gosod disgwyliadau a gofynion erlynwyr preifat, mae’r Llywodraeth yn credu bod angen mecanwaith gorfodi a chraffu effeithiol hefyd i atal camweinyddu cyfiawnder a gwella hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Rydym yn croesawu barn ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

**Arolygu**

Mae arolygu yn fecanwaith hanfodol i'r llywodraeth a'r cyhoedd ddeall sut mae safonau gofynnol yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod ei fod yn defnyddio llawer o adnoddau ac y gall o bosibl roi baich sylweddol ar sefydliadau sy'n destun arolygiad. Rydym yn awyddus i glywed barn ar sut y gellid defnyddio system arolygu mewn ffordd gymesur i helpu i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a chyrff perthnasol yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd. Yn benodol, rydym yn ceisio barn ar ba erlynwyr preifat y gallai neu y dylai system o arolygu gorfodol fod yn berthnasol.

**Achrediad**

Gallai achrediad ddarparu safon ansawdd a gydnabyddir yn ffurfiol ar gyfer pob erlynydd preifat, a ffordd o sicrhau y glynir wrth naill ai’r cod statudol newydd ar gyfer erlynwyr preifat neu’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cefnogir cyflwyno system achredu gan y Rhwydwaith Diwygio Cyfraith Droseddol Nawr (CLRNN) ac adroddiad JSC, ac mae’r JSC yn gweld arolygiadau fel ‘rhan o system achredu’.[15]

---

15 *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu*, Pwyllgor Cyfiawnder Ty'r Cyffredin, 2 Hydref 2020 (https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/497/49702.htm), para.76

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar sut y gallai system achredu helpu i godi safonau ac atebolrwydd erlynwyr preifat, ac yn benodol sut y dylid ei chymhwyso – a ddylai, er enghraifft, fod yn ofyniad ar unrhyw sefydliad sy'n dymuno dwyn erlyniad preifat, neu a ddylai'r defnydd o gynrychiolydd cyfreithiol achrededig fod yn orfodol er mwyn ceisio ad-daliad costau o arian cyhoeddus.

**Sancsiynau a chanlyniadau**

Rydym yn glir na fydd cod safonau gorfodol, ac unrhyw system achredu neu arolygu gysylltiedig, yn gwbl effeithiol onibai y bydd canlyniadau i erlynydd preifat nad yw wedi cyrraedd y safonau gofynnol.

Mae adroddiad y JSC yn awgrymu "os canfyddir bod sefydliad yn camddefnyddio'r pŵer i ddwyn erlyniadau preifat, yna dylai'r corff sy'n gyfrifol am archwilio pob erlynydd a gorfodi'r cod, boed yn CPS, HMCPSI neu gorff cyhoeddus arall, allu dileu hawl sefydliad i ddwyn erlyniad, neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gael caniatâd gan y Twrnai Cyffredinol neu'r DPP cyn y gallant gychwyn erlyniad".[16] At hynny, mae CLRNN yn awgrymu, os nad yw unrhyw bersonau neu gyrff sy'n ymgymryd â gwaith erlyn wedi'u hachredu (fel y maent yn ei argymell) "dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai ynad godi gwŷs i gychwyn yr achos."[17]

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ba ganlyniadau ddylai ddisgyn o fethu â bodloni'r safonau gofynnol, er enghraifft a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ar hawliau sefydliad i ddwyn erlyniadau.

[16] *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu,* Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, 2 Hydref 2020 (https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/497/49702.htm), para.76

[17] CLRNN - Prosiectau a Phrosesau Rhwydwaith (http://www.clrnn.co.uk/clrn-network/clrn-network-projects-and-process/), CLRNN 2: Adolygiad o Erlyniadau Preifat, Jonathan Rogers, Diweddariad 16 Ionawr 2024

# Pennod 2 – Gwella Trefniadau Diogelu i Gyfiawnder yn y Weithdrefn Un Ynad

## Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio

Yn ogystal ag erlynwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol, mae rhai erlynwyr preifat wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r Weithdrefn Un Ynad (SJP) i fynd ar drywydd achosion ar gyfer rhai troseddau diannod yn unig nad ydynt yn garcharadwy.

Wedi'i gyflwyno yn 2015, mae'r SJP yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â mân droseddau nad ydynt yn arwain at ddedfryd o garchar ac mae'n rhan bwysig o sicrhau bod achosion yn cael eu gwrando'n gyflym. Mae'r achosion hyn yn cael eu rheoli'n gyfan gwbl o fewn y llys ynadon ac yn nodweddiadol yn arwain at ddedfrydu'r diffynnydd i dalu dirwy.

O dan yr SJP, mae un ynad, gyda chefnogaeth cynghorydd cyfreithiol, yn adolygu achosion yn seiliedig ar ddatganiadau ysgrifenedig, tystiolaeth gan yr erlynydd, a datganiad lliniarol gan y diffynnydd (os caiff ei gyflwyno) ac yn gwneud penderfyniadau am euogfarnau a sancsiynau y tu allan i "lys agored".[18] Yn wahanol i achosion eraill sy'n cael eu gwrando yn y llys ynadon, nid oes panel o ddau neu dri ynad, ac nid yw erlynwyr, diffynyddion a'r cyhoedd, gan gynnwys newyddiadurwyr, yn bresennol.

Ymdrinnir â thua 65% o'r holl achosion yn y llysoedd ynadon drwy'r SJP. Mae tua 63,000 o achosion y mis yn cael eu datrys pan fydd diffynyddion yn pledio'n euog drwy'r post neu ar-lein, neu pan nad ydynt yn ymateb i'r Hysbysiad Gweithdrefn Un Ynad.[19] Mae erlynwyr sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r SJP wedi'u pennu mewn deddfwriaeth ac yn cynnwys yr heddlu a'r CPS yn ogystal â sawl erlynydd preifat gan gynnwys Awdurdodau Lleol, gweithredwyr trenau, Trwyddedu Teledu a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).[20]

Mae nifer o fesurau diogelu yn rhan o broses SJP i amddiffyn hawl diffynnydd i achos teg. Mae'r rhain yn cynnwys diffynyddion yn gallu dewis cael gwrandawiad llys, darparu lliniariad ochr yn ochr â phledio'n euog, ac, os nad oeddent yn ymwybodol o'r achos,

[18] Mae "llys agored" yn cyfeirio at achosion barnwrol sy'n agored i'r cyhoedd eu mynychu.

[19] https://www.gov.uk/government/collections/criminal-court-statistics

[20] Mae adran 29 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn awdurdodi'r CPS a'r heddlu i ddefnyddio'r SJP tra bod awdurdod erlynwyr preifat penodedig i ddefnyddio'r SJP yn dod o Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Dull Newydd o Gychwyn Achos) (Manylu Erlynwyr Perthnasol) 2016.

gwneud datganiad statudol sy'n dirymu pob achos. Gallant hefyd apelio i Lys y Goron lle bydd yr achos yn cael ei ailwrando, heb fod angen caniatâd i apelio.

Mae sefydliadau'r cyfryngau yn cael rhestrau o'r holl achosion SJP sydd ar y gweill, canlyniadau pob achos, ac mae ganddynt yr hawl i gael datganiad yr erlyniad a lliniariad y diffynnydd os darperir.

Fodd bynnag, bu pryderon cynyddol ymhlith y cyhoedd ynghylch y ffordd yr ymdrinnir ag amgylchiadau lliniarol ac mae angen mwy o dryloywder.

Ar hyn o bryd, os bydd diffynnydd yn darparu lliniariad ochr yn ochr â phledio'n euog, bydd yr ynad yn ystyried hyn wrth benderfynu ar yr achos. Yna mae gan yr ynad yr opsiwn i gyfeirio'r achos yn ôl at yr erlynydd, cyfeirio'r achos i lys agored, neu waredu'r achos trwy ryddhad absoliwt (neu amodol) os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae rhyddhad absoliwt yn golygu nad yw'r diffynnydd yn cael dirwy a bod ei euogfarn wedi darfod yn awtomatig, gan ddarparu datrysiad cyflymach ar ei gyfer.

O dan y broses SJP bresennol, bu achosion lle mae pobl wedi cael eu herlyn lle mae'r camau lliniaru a gyflwynwyd ganddynt yn dangos nad oedd er lles y cyhoedd iddynt gael eu herlyn. Ar hyn o bryd nid oes cyfle i erlynwyr adolygu unrhyw liniaru cyn i ynad benderfynu ar yr achos.

## Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Mae'r SJP yn fesur pwysig o ran sicrhau bod achosion yn gallu cael eu gwrando yn gyflym yn y llysoedd ynadon. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau tegwch mewn achosion a erlynir drwy SJP a bod digon o fesurau diogelu ar gyfer diffynyddion, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed.

Yn dilyn y pryderon a godwyd gan y cyhoedd a'r cyfryngau mewn perthynas â SJP, yn ogystal ag adolygu'r dirwedd erlyn preifat ehangach, mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylid gwneud newidiadau i wella'r mesurau diogelu o fewn proses SJP a sicrhau defnydd priodol o SJP gan bob erlynydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod tua 35% o ddiffynyddion yr ymdrinnir â hwy drwy'r SJP yn cael eu herlyn gan erlynwyr preifat.[21]

Yn yr adran flaenorol, rydym wedi nodi cynigion i ddiwygio'r ffordd y mae erlynwyr preifat yn gweithredu, gan gynnwys wrth ddefnyddio SJP, ac yn yr adran hon rydym yn ymgynghori ar newidiadau posibl i systemau sy'n rhoi mesurau diogelu ychwanegol ar

[21] Cyfrifir y ffigur hwn gan ddefnyddio data gwybodaeth reoli fewnol nad yw wedi'i gyhoeddi. Mae 'Arall' a 'Heb ei Asesu' yn cyfrif am 11% o erlynydd diffynyddion SJP.

waith, a byddai’r rhain yn berthnasol i holl ddefnyddwyr SJP, gan gynnwys erlynwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol, megis yr heddlu.

Mae'r Llywodraeth am archwilio, drwy'r ymgynghoriad hwn, a ddylid gwneud gwelliannau i'r SJP i newid y ffordd y mae pob erlynydd a all erlyn drwy'r SJP yn dwyn erlyniadau drwy'r weithdrefn hon, ac a ddylid gosod gofynion ychwanegol ar yr erlynwyr hynny sy'n defnyddio SJP.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn archwilio newidiadau i roi gwell sicrwydd bod achosion SJP a ddygir er budd y cyhoedd, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob erlynydd SJP, boed yn CPS, yr heddlu neu’n erlynwyr preifat, gael mynediad at ac adolygu’r holl amgylchiadau lliniarol a gyflwynir gan y diffynnydd.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i ailgynllunio'r hysbysiad a anfonir at ddiffynyddion i'w hysbysu o'u herlyniad (Hysbysiad SJP), i'w gwneud yn gliriach ac yn haws i ddiffynyddion ddeall proses SJP, a'u hawliau yn hyn o beth.

# Pennod 3 – Gwella Tryloywder

## Y sefyllfa bresennol a'r angen am ddiwygio

Mae tystiolaeth a roddwyd i Ymchwiliad TG Horizon Swyddfa'r Post i sgandal Horizon yn nodi bod y rhai sy'n cael eu herlyn gan Swyddfa'r Post wedi cael gwybod nad oedd eraill yn cael yr un problemau ag oeddent pan godwyd pryderon am system Horizon. Doedd llawer o'r rhai a gafodd eu herlyn hefyd ddim yn ymwybodol bod eraill hefyd wedi cael eu herlyn am droseddau yn dilyn gosod system Horizon.

Mae'n bosibl, pe bai mwy o dryloywder ynghylch gweithgareddau erlyn Swyddfa'r Post a data sydd ar gael i'r cyhoedd yn dangos y nifer cynyddol o erlyniadau, y byddai mwy o gyfle wedi bod i ddioddefwyr y sgandal, y seneddwyr a'r cynghorwyr cyfreithiol sy'n eu cynrychioli, a'r cyhoedd yn ehangach graffu arnynt. Gallai hyn fod wedi arwain at nodi camweinyddiadau cyfiawnder yn gynt, a hyd yn oed at rai erlyniadau anghyfiawn yn cael eu hatal.

Er bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF) yn berchen ar gofrestr sy'n manylu ar geisiadau i'r ynadon am wŷs i gychwyn erlyniad preifat, fe'i lluniwyd fel dogfen fewnol i'w defnyddio ymhlith staff gweithredol yn unig. Nid yw'r gofrestr fewnol hon yn bodloni'r gofynion ar gyfer ystadegau cyhoeddedig ar hyn o bryd ac nid yw'n cynnwys data ar erlyniadau preifat a gychwynnwyd drwy'r Weithdrefn Un Ynad, felly nid yw'n cofnodi graddau llawn erlyniadau preifat na data pellach ar yr erlyniadau hynny, gan gynnwys data neu ganlyniadau diffynyddion dienw.

Yn ogystal, nid oes cronfa ddata ganolog gyhoeddus ar nifer yr erlyniadau a ddygir gan erlynwyr preifat, ac ar hyn o bryd nid oes dyletswydd ar erlynwyr preifat i gyhoeddi data ar yr erlyniadau a gyflwynir ganddynt. Rydym yn ymwybodol bod rhai erlynwyr eisoes yn cyhoeddi eu data, ond mae'r math o ddata a rheoleidd-dra cyhoeddiadau yn amrywio.

Mae'r canlyniad yn ddarlun anghymesur o bwy sy'n dwyn erlyniadau preifat yng Nghymru a Lloegr, faint o erlyniadau preifat sy'n cael eu dwyn, pa fath o erlyniadau preifat sy'n cael eu dwyn, a faint o erlyniadau preifat sy'n arwain at euogfarn.

## Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Mae tryloywder yn agwedd hollbwysig ar atebolrwydd. Dylai fod gan sefydliadau sy'n ymgymryd ag erlyniadau troseddol oruchwyliaeth a dealltwriaeth glir o'r erlyniadau a ddygant a dylent fod yn agored i'r cyhoedd yn eu cylch, yn enwedig nifer yr erlyniadau y maent yn eu dwyn. Mae'r Llywodraeth a'r cyhoedd, yn gywir ddigon, eisiau gwybod pwy sy'n defnyddio arfau'r wladwriaeth i erlyn.

Argymhellodd adroddiad y JSC yn 2020 y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) "sefydlu cofrestr ganolog o'r holl erlyniadau preifat yng Nghymru a Lloegr."[22] Credwn y gallai cofrestr gyhoeddus ddarparu rhywfaint o dryloywder drwy nodi pwy sy'n dwyn erlyniadau preifat yng Nghymru a Lloegr ac rydym yn ceisio barn ar y cynnig hwn.

Gallai cynnydd yn y data sydd ar gael helpu i ddangos tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a byddai yn ei dro yn galluogi mwy o graffu ar erlynwyr preifat. Byddai hefyd yn darparu mwy o oruchwyliaeth o'r dirwedd cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd – er enghraifft, gallai cynnydd mewn erlyniadau preifat ddigwydd oherwydd materion adnoddau neu gapasiti mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae mwy o ddata sydd ar gael yn galluogi'r Llywodraeth a'r cyhoedd i nodi tueddiadau ac archwilio'r rhesymau drostynt, gan ganiatáu i bryderon gael eu nodi a chamau unioni i'w cymryd yn gynt lle bo angen. Rydym felly yn ceisio barn ar ba ddata y dylai fod yn ofynnol i erlynwyr preifat ei gyhoeddi, ac a ddylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol i bob erlynydd preifat.

Agwedd hanfodol arall ar dryloywder yw sut mae erlynwyr preifat yn adolygu ac yn asesu eu perfformiad eu hunain. Gall fod yn fuddiol i erlynwyr preifat nid yn unig adrodd ar ddata meintiol ond hefyd ddarparu asesiad ansoddol o'u herlyniadau. Gall hyn gynnwys ystyried a yw'r erlynydd yn cydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer, archwiliad neu hapsampl o'u herlyniadau, neu wersi a ddysgwyd a chamau i'w gwella. Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai hyn fod yn ofynnol ac a ddylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd.

[22] *Erlyniadau Preifat: mesurau diogelu*, Pwyllgor Cyfiawnder Ty'r Cyffredin, 2 Hydref 2020 (https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/497/49702.htm), para. 65

# Dadansoddiad Cydraddoldeb

Mae'r Datganiad Cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon yn ystyried effeithiau cydraddoldeb tebygol y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ar erlynwyr a'r rhai sy'n cael eu herlyn. Ar gyfer y cynigion hyn rydym wedi nodi, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, beth yw'r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb. Roedd ein dadansoddiad yn ystyried, lle bo modd, effeithiau ein newidiadau arfaethedig ar bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r cwestiynau cydraddoldeb penodol isod wedi'u cynllunio i wahodd adborth ar bob un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn a'u heffeithiau. Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn adolygu'r effeithiau tebygol ac yn diweddaru'r Datganiad Cydraddoldeb hwn ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad lle bo angen.

# Asesiad Effaith a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

Cynhelir asesiad o’r effeithiau economaidd a gynhyrchir gan y cynigion a gwmpesir yn yr ymgynghoriad hwn ochr yn ochr â’r ymateb ôl-ymgynghoriad, gan mai diben yr ymgynghoriad yw cynorthwyo’r Llywodraeth i benderfynu pa opsiynau polisi i’w symud ymlaen i ddiwygio’r system erlyn preifat. Bydd unrhyw asesiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio i'w graffu os bodlonir y trothwyon angenrheidiol.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae papur ymgynghori Cymraeg ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/oversight-and-regulation-of-private-prosecutors-in-the-criminal-justice-system.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

**Amdanoch chi**

1. Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat?
   - Ydw
   - Nac ydw

2. Os ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad sy’n dwyn erlyniadau preifat, faint o erlyniadau a ddygwyd gan eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2023-2024)? Dewiswch os gwelwch yn dda:
   - Llai na 100
   - 100-500
   - 501-1,000
   - 1,001-5,000
   - 5,001-10,000
   - Mwy na 10,000
   - Ddim yn gwybod
   - AMH

3. Os ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat, a yw eich sefydliad wedi'i awdurdodi i gychwyn erlyniadau gan ddefnyddio'r Weithdrefn Un Ynad (SJP)?
   - Ydi
   - Nac ydi
   - Ddim yn gwybod
   - AMH

4. Os ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat, a yw eich sefydliad yn cychwyn erlyniadau y tu allan i'r Weithdrefn Un Ynad?
   - Ydi
   - Nac ydi
   - Ddim yn gwybod
   - AMH

**Pennod 1: Cysondeb Safonau ac Atebolrwydd**
**Cod Ymarfer**

5. A ydych chi'n cytuno y dylai rhai neu bob un o'r erlynwyr preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) gael eu rhwymo gan god ymarfer gorfodol?
   - Ydw
   - Nac ydw
   - Ddim yn gwybod

   Rhowch resymau dros eich ateb.

6. Os ydych chi'n cytuno y dylai rhai neu bob erlynydd preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) gael eu rhwymo gan god ymarfer gorfodol, a ydych chi'n meddwl y dylai'r cod hwn fod yn berthnasol i:
   - Pob erlynydd preifat sy'n dwyn erlyniadau
   - Dim ond yr erlynwyr preifat hynny sy'n dwyn nifer penodol o erlyniadau (nodwch beth ddylai'r nifer hwn fod yn eich barn chi)
   - Dim ond yr erlynwyr preifat hynny sy'n cael eu diffinio gan ddefnyddio mesur gwahanol, ac eithrio nifer yr erlyniadau a ddaw yn eu sgil (nodwch beth ddylai hwn fod yn eich barn chi)
   - Ddim yn gwybod
   - AMH

7. Os ydych chi'n cytuno y dylai rhai neu bob erlynydd preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) gael eu rhwymo gan god ymarfer gorfodol, rhowch eich barn ar ofynion y gellid eu cynnwys yn y cod (dewiswch bob un sy'n berthnasol):
   - Gofyniad i wahanu swyddogaethau rhwng ymchwilwyr ac erlynwyr
   - Gofyniad i wahanu swyddogaethau rhwng y rhai sy'n penderfynu cychwyn erlyniad a'r rhai sy'n cyflawni'r erlyniad
   - Gofyniad i ystyried a oes digon o dystiolaeth i sicrhau euogfarn
   - Gofyniad i adolygu prawf lles y cyhoedd cyn cychwyn yr erlyniad, a'i gadw dan adolygiad trwy gydol yr achos
   - Darparwch unrhyw ofynion eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y cod, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau sy'n gyfyngedig i erlyniadau preifat megis gofyniad i gwmnïau adrodd am bob gweithgaredd erlyn i'w Bwrdd Cyfarwyddwyr

8. **Os ydych chi'n ateb yr ymgynghoriad hwn ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat:** a ydych ar hyn o bryd yn dilyn Cod (er enghraifft, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron) wrth ddwyn erlyniadau?
   - Ydw, dywedwch pa God rydych yn dilyn
   - Nac ydw
   - Ddim yn gwybod

9. **Os ydych chi'n ateb yr ymgynghoriad hwn ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat**: Os yw eich sefydliad yn dilyn cod, faint o amser/adnodd mae hyn yn ei gymryd? Nodwch a yw eich amcangyfrifon yn seiliedig ar bob erlyniad neu fesul blwyddyn.

10. **Os ydych chi'n ateb yr ymgynghoriad hwn ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat**: Os nad yw eich sefydliad yn dilyn cod, faint o amser/adnoddau ychwanegol ydych chi'n rhagweld y byddai'n ei gymryd i gydymffurfio â chod sy'n adlewyrchu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron? Nodwch a yw eich amcangyfrifon yn seiliedig ar bob erlyniad neu fesul blwyddyn.

11. Darparwch unrhyw enghreifftiau o arfer gorau gan sicrhau cysondeb safonau mewn erlyniadau preifat (naill ai'n cael eu defnyddio gennych chi neu'ch sefydliad, neu y gwyddoch amdanynt).

12. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am god ar gyfer erlynwyr preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rhowch y rhain.

**Arolygiaeth**

13. A ydych chi'n cytuno y dylai rhai neu bob un o'r erlynwyr preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) fod yn destun arolygiadau gan arolygiaeth?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

14. Os ydych chi'n cytuno y dylai rhai neu bob erlyniad preifat fod yn destun arolygiadau gan arolygiaeth, a ddylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol i (dewiswch un):
    - Pob sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat
    - Dim ond y rhai sy'n dwyn nifer penodol o erlyniadau preifat (nodwch beth ddylai'r rhif hwn fod yn eich barn chi)
    - Dim ond yr erlynwyr preifat hynny sy'n cael eu diffinio gan ddefnyddio mesur gwahanol, ac eithrio nifer yr erlyniadau a ddaw yn eu sgil (nodwch beth ddylai hwn fod yn eich barn chi)
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

15. Os ydych chi’n cytuno y dylai erlynwyr preifat fod yn destun arolygiadau gan arolygiaeth, beth fyddai'n ganlyniad addas pe bai erlynydd yn methu arolygiad?
    - Gofyniad i ddatgan i’r llys ynadon unrhyw adroddiadau negyddol blaenorol/methiant i gwrdd â’r safonau gofynnol wrth wneud cais am wŷs i gychwyn erlyniad
    - Dileu'r hawl i ddefnyddio SJP os yn berthnasol
    - Dileu statws fel ‘erlynydd perthnasol’ os yw’n berthnasol, sy’n golygu gofyniad i wneud cais i’r llys ynadon am wŷs i gychwyn erlyniadau yn y dyfodol
    - Arall, nodwch
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

16. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am arolygiaeth ar gyfer erlynwyr preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rhowch y rhain.

**Achrediad**

17. Ydych chi'n meddwl y dylid cael system achredu ar gyfer erlynwyr preifat? Os felly, nodwch a ydych chi’n credu y dylai hyn fod yn orfodol neu'n wirfoddol.
    - Ie, gorfodol
    - Ie, gwirfoddol
    - Na
    - Ddim yn gwybod

18. Os credwch y dylid cael system achredu wirfoddol, rhowch fanylion beth ddylai'r cymhelliant fod ar gyfer ennill achrediad neu'r canlyniadau ar gyfer peidio â chael eich achredu.

19. Os credwch y dylid cael system achredu ar gyfer erlynwyr preifat, a ydych yn meddwl y dylai fod angen hyn ar lefel sefydliadol, neu a ddylai fod yn ofyniad proffesiynol personol ar gyfer pob unigolyn sy'n ymwneud ag erlyniad?
    - Lefel sefydliadol
    - Gofyniad personol
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

20. Os oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am achredu ar gyfer erlynwyr preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rhowch y rhain.

**Pennod 2: Gwella Trefniadau Diogelu i Gyfiawnder yn y Weithdrefn Un Ynad**

21. Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn ofynnol i erlynwyr y Weithdrefn Un Ynad gymryd camau i ymgysylltu â'r diffynnydd cyn cychwyn erlyniad, i ddeall eu sefyllfa bersonol (amgylchiadau lliniarol) ac asesu a yw'r erlyniad er budd y cyhoedd?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

22. Ydych chi'n meddwl y dylai'r erlynydd allu gweld yr amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd i'r llys gan ddiffynnydd cyn i'r achos gael ei adolygu gan ynad?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

23. Os ydych chi'n cytuno y dylai'r erlynydd allu adolygu'r amgylchiadau lliniarol cyn i'r ynad adolygu'r achos, a ydych chi'n credu y dylai fod gofyniad statudol iddynt adolygu hyn ym mhob achos, a chynnal asesiad pellach i weld a yw er budd y cyhoedd i barhau â'r erlyniad, yna cadarnhau i'r llys eu bod wedi gwneud hyn?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

24. A ddylai fod gofyniad i erlynwyr ganiatáu cyfnod penodol o amser i bobl ymateb i hysbysiad cychwynnol er mwyn darparu manylion am unrhyw amgylchiadau cyn cyhoeddi Hysbysiad SJP?
    - Dylai – rhowch y cyfnod o amser sy'n briodol yn eich barn chi
    - Na ddylai
    - Ddim yn gwybod

25. A ddylai fod gofyniad i anfon nifer penodol o hysbysiadau ysgrifenedig cyn rhoi Hysbysiad Gweithdrefn Un Ynad?
    - Dylai – nodwch faint o hysbysiadau ysgrifenedig sy'n briodol yn eich barn chi
    - Na ddylai
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

26. **Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau drwy'r Weithdrefn Un Ynad:** a ydych yn ymgysylltu â'r diffynnydd ar hyn o bryd ac yn gofyn am unrhyw wybodaeth am eu hamgylchiadau cyn cychwyn erlyniad, gan gynnwys asesu pa mor agored i niwed ydynt?
    - Ydw – rhowch fanylion am yr amser a'r adnoddau y mae hyn yn eu cynnwys
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

27. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr SJP nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rhowch y rhain.

**Pennod 3: Gwella Tryloywder**

28. A ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i rai neu bob erlynydd preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) gofrestru gyda GLITEF cyn dwyn erlyniad?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

29. Os ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i rai neu bob erlyniad preifat gofrestru gyda GLITEF cyn dwyn erlyniad, a ddylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol i (dewiswch un):
    - Pob sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat
    - Dim ond y rhai sy'n dwyn nifer penodol o erlyniadau preifat (nodwch beth ddylai'r rhif hwn fod yn eich barn chi)
    - Dim ond yr erlynwyr preifat hynny sy'n cael eu diffinio gan ddefnyddio mesur gwahanol, ac eithrio nifer yr erlyniadau a ddaw yn eu sgil (nodwch beth ddylai hwn fod yn eich barn chi)
    - AMH

30. A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i rai neu bob erlynydd preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) gyhoeddi eu data eu hunain ar yr erlyniadau a gyflwynir ganddynt?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

31. Os ydych chi'n meddwl y dylai rhai neu bob un o'r erlynwyr preifat gyhoeddi data, pa ddata ddylai fod yn ofynnol iddynt ei gyhoeddi? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Nifer yr erlyniadau a ddygir bob blwyddyn
    - Mathau o droseddau'r erlyniadau a ddygir
    - Nifer yr euogfarnau o ganlyniad
    - Nifer y diffynyddion a blediodd yn euog
    - Data cydraddoldeb
    - Arall, nodwch
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

32. A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i erlynwyr preifat (ac eithrio unigolion sy'n dwyn erlyniadau preifat ar eu rhan eu hunain) asesu eu perfformiad a/neu archwilio eu herlyniadau eu hunain yn rheolaidd?
    - Dylai
    - Na ddylai
    - Ddim yn gwybod

33. Os ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i erlynwyr preifat asesu eu perfformiad a/neu archwilio eu herlyniadau eu hunain yn rheolaidd, a ydych yn meddwl y dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon?
    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

34. **Os ydych chi'n ateb ar ran sefydliad sy'n dwyn erlyniadau preifat:** A yw eich sefydliad yn casglu unrhyw ddata ynghylch nifer yr erlyniadau preifat a ddygir bob blwyddyn? Os felly, nodwch a yw'ch sefydliad yn cyhoeddi'r data hwn, yn ogystal â'r costau amser ac adnoddau ar gyfer casglu (ac os yw'n berthnasol cyhoeddi) y data hwn. Os nad yw eich sefydliad yn casglu neu'n cyhoeddi data, amcangyfrifwch faint o amser ac adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer casglu a chyhoeddi'r data hwn os yn bosibl.
    - Ydi
    - Nac ydi
    - Ddim yn gwybod
    - AMH

36. Os oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am dryloywder mewn erlyniadau preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rhowch y rhain.

## Cwestiynau Dadansoddi Cydraddoldeb

### Cysondeb safonau ac atebolrwydd

37. O'ch profiad chi a oes unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchodedig y gallai'r cynigion ym Mhennod 1 y papur hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Cynhwyswch pa grwpiau/unigolion ac eglurwch eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi eich barn.

38. Yn eich barn chi, beth yw effeithiau cydraddoldeb pob un o'r cynigion ym Mhennod 1 ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a thystiolaeth lle bo modd.

### Gwella mesurau diogelu cyfiawnder yn y Weithdrefn Un Ynad

39. O'ch profiad chi a oes unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchodedig y gallai'r cynigion ym Mhennod 2 o'r papur hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Cynhwyswch pa grwpiau/unigolion ac eglurwch eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi eich barn.

40. Yn eich barn chi, beth yw effeithiau cydraddoldeb pob un o'r cynigion ym Mhennod 2 ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a thystiolaeth lle bo modd.

### Gwella tryloywder

41. O'ch profiad chi a oes unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchodedig y gallai'r cynigion ym Mhennod 3 o'r papur hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Cynhwyswch pa grwpiau/unigolion ac eglurwch eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi eich barn.

42. Yn eich barn chi, beth yw effeithiau cydraddoldeb pob un o'r cynigion ym Mhennod 3 ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a thystiolaeth lle bo modd.

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yn berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch os gwelwch yn dda) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn gynrychiolydd grŵp**, rhowch enw'r grŵp i ni a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 8 Mai 2025 i:

Criminal Justice and Courts Directorate
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ebost: PrivateProsecutionConsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan PrivateProsecutionConsultation@justice.gov.uk neu:

Criminal Justice and Courts Directorate
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

## Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law, a ddylai fod cyn belled ag y bo modd o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â’r trefniadau mynediad at wybodaeth (y rhain yn bennaf yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i’r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy’n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu’r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i’ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â’r Ddeddf Diogelu Data ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03297752

978-1-5286-5453-1